# Ionawr 2022 Canllawiau Cofid

**Byddwch yn wyliadwrus mae yna lawer o bobl /disgyblion bregus o'n cwmpas**

Os oes gan blentyn unrhyw symptomau annwyd, dylent gael prawf llif/PCR

Y tri prif symptom o COVID-19 y dylech fod yn ymwybodol ohonynt yw:

- peswch cyson newydd
- tymheredd uchel
- colli neu newid yn y synhwyrau blasu neu arogli

**Mae nifer o ddisgyblion/pobl yn gallu bod yn asymptomatig felly os ydynt yn gyswllt agos dilynwch ganllawiau Llywodraeth Cymru a gwnewch brawf llif am 7 niwrnod ar ôl bod yn gyswllt agos er mwyn helpu i beidio lledaenu'r feirws.**

**Yn yr un modd, gwnewch brawf am 7 niwrnod os oes ganddynt unrhyw un o'r symptomau hyn:**

- Cur pen
- Trwyn yn rhedeg
- Tisian
- Dolur gwddf
- Salwch/Dolur rhydd

**Os oes unrhyw amheuaeth gwnewch brawf PCR.**

Os bydd eich plentyn yn datblygu un o'r symptomau hyn dylent ddilyn y canllawiau hunanynysu a dylech wneud cais am brawf coronafeirws.

Nid ydym mwyach yn argymell bod plant o dan 5 oed yn cymryd profion COVID-19 heb

## Canllawiau hunanynysu

d sydd wedi'u brechu'n llawn (wedi derbyn dau ddôs o frechlyn cymeradwy) a phlant rhwng 5 a 17 oed ddefnyddio profion llif ochrol (LFTs) bob dydd am 7 diwrnod os cânt eu nodi fel cyswllt ag achos COVID-19 positif. Gelwir hyn yn 'Brofi Cyswllt Dyddiol'. Noder os gwelwch yn dda ei bod yn annhebygol y bydd dosbarth/grŵp cyfan yn cael eu hystyried yn gysylltiadau agos (gweler isod am ragor o wybodaeth am y diweddaraf ar olrhain cyswllt).

Rydym yn gofyn yn garedig i'r rhai sy'n cymryd Profion Cyswllt Dyddiol eu cymryd cyn cyn iddynt gyrraedd yr ysgol bob dydd. Nid oes angen i'r unigolion hyn hunan-ynysu am y diwrnod hwnnw oni bai bod ganddynt brawf llif ochrol positif neu eu bod yn datblygu symptomau. Os ydynt yn datblygu symptomau, dylent archebu prawf PCR cyn gynted â phosibl.

Rhaid i oedolion heb eu brechu a nodwyd fel cyswllt ag achos COVID-19 positif ynysu am 10 diwrnod

## Achos Positif

| |
|---|
| • Cysylltwch gyda'r ysgol postglanrafon@hwbcymru.net |
| • Bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni/gwarchodwyr disgyblion sy'n cael eu hystyried yn gysylltiadau agos trwy ebost. |
| • Disgyblion sy'n gyswllt agos i wneud prawf llif pob bore am 7 diwrnod. Os yw'r prawf yn negyddol caiff disgyblion fynychu'r ysgol. |
| • Os oes un achos yn y dosbarth bydd rhieni yn derbyn y llythyr yma: Hybysu Inform 1.pdf |
| • Os oes mwy na 2 achos bydd rhieni yn derbyn y llythyr yma Rhybuddio Hysbysu Warn Inform 2.pdf |

## Cyswllt Agos

Ystyrir fod rhywun wedi dod i gysylltiad agos os yw wedi cael unrhyw un o'r mathau canlynol o gyswllt â rhywun sydd wedi profi'n bositif am COVID-19:

- cyswllt wyneb yn wyneb gan gynnwys cael sgwrs o fewn 1 metr, neu rywun yn peswch arnoch.
- cyswllt corfforol croen-i-groen am unrhyw gyfnod o amser.
- cyswllt o fewn 1 metr am funud neu fwy heb gyswllt wyneb yn wyneb.
- cyswllt o fewn 2 fetr am fwy na 15 munud (naill ai fel cyswllt un tro, neu dros gyfnod o 1 diwrnod).
- teithio yn yr un cerbyd.

## Profion llif

Mae'r profion am ddim. Archebwch o https://test-for-coronavirus.service.gov.uk/order-lateral-flow-kits/condition

Mae ychydig o brofion ar gael yn yr ysgol os nad ydych yn gallu cael gafael ar gyflenwad. Cysylltwch gyda Debbie yn y swyddfa os ydych angen profion